



23 Hydref 2023

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD SBOTOLAU PEEL: 'POLICE PERFORMANCE: GETTING A GRIP'.

Gwnaeth adroddiad Sbotolau PEEL dynnu sylw at y trafferthion y mae'r heddlu yn eu wynebu mewn perthynas ag adnoddau a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar blismona ehangach, gan gynnwys y defnydd gwael o ddata, rheoli perfformiad gwael, a goruchwylwyr rheng flaen yn cael eu siomi. Fodd bynnag, mae nodiadau'r adroddiad yn dangos meysydd i'w gwella, ac arferion da mewn heddluoedd eraill, a gadael cyfleoedd i Heddlu De Cymru archwilio a gwella fel sy'n briodol.

Caiff ei nodi yn yr adroddiad bod gan y cyhoedd ddisgwyliadau dilys am wasanaeth o safon uchel pan fyddant yn galw am yr heddlu, ac mae gwasanaeth gwael yn tanseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ymhellach. Fel y cyfryw, nodaf yr argymhellion yn yr adolygiad hwn a byddaf yn cysylltu'r meysydd hyn â'n gwaith craffu a goruchwilio yn Heddlu De Cymru.

Rydw i a'r Prif Gwnstabl yn awyddus i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â chyfleoedd i wella lle bynnag y gellir dod o hyd iddynt. Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl Bacon yn crynhoi ei barn ar yr adroddiad fel a ganlyn:

'Mae Heddlu De Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adolygiad hwn, ac er y gwerthfawrogir bod hwn yn asesiad eang iawn ar blismona sy'n tynnu sylw at y meysydd sy'n peri pryder, mae hefyd yn tynnu sylw at y meysydd sy'n cael eu gwella, a bydd Heddlu De Cymru yn archwilio'r meysydd hyn i'w gwella yn drwyadl ac yn mynd i'r afael â nhw drwy ddefnyddio'r arferion da y mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw atynt o heddluoedd eraill.

Er na chaiff ei grybwyll yn uniongyrchol yn yr adroddiad, mae Heddlu De Cymru eisoes yn ymgysylltu â sawl arfer da a nodwyd yn yr adroddiad er enghraifft Prosiect ADDER, y Gofal Cywir, y Bobl Gywir ac Ymgyrch Soteria.

Mae Heddlu De Cymru yn cytuno â'r materion sylfaenol cyffredinol a nodir yn yr adroddiad, sef nid yn unig y mae'r heddluoedd yn casglu'r data anghywir, ond maent hefyd yn wael wrth ddadansoddi'r data y maent yn eu casglu ac wrth werthuso wedi

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales



hynny. Mae Heddlu De Cymru yn ymgysylltu â phrosiect dadansoddi data ar hyn o bryd, i fynd i'r afael â'r mater hwn yn well.

Noder hefyd yn yr adroddiad nad yw'r heddlu yn llwyddo i fuddsoddi'n iawn mewn gorchwylwyr rheng flaen. Mae Heddlu De Cymru eisoes wedi trefnu adolygiad o hyfforddiant ar gyfer gorchwylwyr rheng flaen ac mae pecyn newydd wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno. Edrychodd yr adroddiad hefyd ar y gweithlu, a daethpwyd i'r canlyniad nad oedd ganddo ddigon o adnoddau na sgiliau, ac yn canolbwyntio'n ormodol ar weithgarwch y tu allan i'r heddlu. Mae Heddlu De Cymru yn ymwybodol y bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn fuddiol iawn o ran gwella hyder y cyhoedd mewn plismona.

Gwnaed cyfanswm o 11 argymhelliad gan yr adroddiad, gyda 3 ohonynt yn rhai roedd angen i heddluoedd fynd i'r afael â nhw. Bydd Heddlu De Cymru yn sicrhau y byddant yn parhau i weithio i roi'r argymhellion hyn ar waith.'

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Dirprwy Brif Gwnstabl a'r ymrwymiad i wella'r gwasanaethau yn y meysydd a nodir yn yr Adroddiad Sbotolau. Byddaf yn sicrhau y bydd fy swyddfa'n gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i gefnogi eu hymdrechion lle bynnag y bo'n bosibl.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru